OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1628 (Cy.122)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*14 Mehefin 2005*
Yn dod i rym - -	*24 Mehefin 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ac wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. O ran y Rheoliadau hyn —

(a) eu henw yw Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005;

(b) deuant i rym ar 24 Mehefin 2005; ac

(c) maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995(**4**) yn unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) yn y diffiniad o "Directive 95/45/EC"(**5**), yn lle'r geiriau "and Directive 2001/50/EC" rhodder y geiriau —

(**1**) 1990 p.16

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4). Yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Diwygio) 2004 (O.S. Rhif 2004/2990), gydag effaith o 7 Rhagfyr 2004 ymlaen datgymhwysir y gofyniad i ymgynghori a geir yn adran 48(4) o Ddeddf 1990 mewn unrhyw achos pan fo ymgynghori yn ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.

(**4**) O.S. 1995/3124, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2000/1799 (Cy.124) ac O.S. 2001/3909 (Cy.321).

(**5**) Diwygiwyd y diffiniad o "Directive 95/45/EC" gan O.S. 2000/1799 (Cy.124) ac O.S. 2001/3909 (Cy.321).